



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl Gydweithiwr

06/01/2022

Wrth i ni groesawu blwyddyn newydd ni fyddem wedi dychmygu y byddem unwaith eto yn byw o dan gyfyngiadau.

Yn unol â'r darlun yr ydym yn ei weld yn genedlaethol, mae'r ffigurau ar gyfer amrywiolyn Omicron wedi codi'n sydyn, gyda chynnydd o 41 y cant ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd yn unig. Yn ddiweddar, mae nifer yr achosion wedi cael eu gyrru'n bennaf gan grwpiau oedran iau ond rydym yn dechrau gweld hyn yn cynyddu ar draws pob ystod oedran gan gynnwys pobl dros 60 oed.

Yn debyg i eraill, nid ydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sydd wedi cael eu brechu sy'n mynd yn ddifrifol wael, ond mae gennym rai pobl sâl iawn o hyd yn ein ITU a'n wardiau adfer.

Mae derbyniadau newydd i'r ysbyty o ganlyniad i COVID-19 yn cynyddu. Ar hyn o bryd mae gennym 122 o gleifion COVID-19 positif sy'n derbyn gofal ar draws safleoedd ein hysbytai sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y system.

Ond mae effaith barhaol COVID-19 ym mha bynnag amrywiolyn, yn dal i gael ei gweld.

Yn draddodiadol, mae pwysau'r gaeaf ar eu hanterth yn ystod wythnosau cyntaf mis

Ionawr. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn rydym yn gweld cyfuniad o ffactorau'n dod i'r amlwg. Mae'r tymheredd yn gostwng, mae'r tywydd yn gwaethgu, mae feirysau fflw ac anadlol yn cynyddu ac mae'r clefydau trosglwyddadwy yn y gymuned yn dechrau lledaenu wrth i fwy o bobl ddychwelyd i'r gwaith a'r ysgol. Rydym yn cynllunio'n ofalus ar gyfer hyn yn y GIG gan gynnwys olrhain epidemioleg feirysau o gyfandir Awstraliasia.

Fodd bynnag, eleni, mae ein cynlluniau bellach yn cynnwys mwntaniad arall o COVID-19 ac effaith y feirws ar ein cleifion a'n cymuned yn ogystal â'n staffio.

Fel pob sefydliad arall yn y GIG, rydym yn gweld effaith sylweddol y feirws ar ein staff, p'un a yw hynny'n salwch staff neu staff y mae angen iddynt ynysu oherwydd COVID-19. Rydym yn gorfod cyfyngu ar rai gwasanaethau eto er mwyn galluogi'r staff hynny i gael eu hadleoli i feysydd eraill ac er mwyn iddynt lenwi'r bylchau yn ein gwasanaethau clinigol brys hanfodol.

Yn anfoddog, rydym yn gorfod adolygu'r llawdriniaethau a gynlluniwyd gan lawer o bobl er mwyn gallu trin y capasiti gwelyau presennol ar draws ein system, sydd i'w weld yn y maes gofal sylfaenol hyd at ein safleoedd ysbyty aciwt.

Mae'n wirioneddol ddrwg iawn gennyf os ydych chi'n aros am lawdriniaeth y mae ei hangen yn fawr, sy'n effeithio ar ansawdd eich bywyd, neu os ydych chi'n profi anghysur a phoen, rwy'n gwerthfawrogi ac yn deall y gofid y bydd hyn yn ei achosi i chi a'ch teulu.

Byddwch yn sicr bod pob un ohonom yn gweithio o fore tan nos i gynnal cymaint o wasanaethau hanfodol â phosibl, ond gyda'r cynnydd mewn achosion sy'n gysylltiedig ag Omicron, mae ein sefyllfa staffio wedi dirywio'n sylweddol.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym wedi cyflwyno ein sesiynau briffio ddwywaith yr wythnos ar draws y system weithredol. Gall staff ddilyn y rhain 24/7 ar ein ap staff - Staff Connect.

Nawr, yn fwy nag erioed o'r blaen, yw'r amser i ddefnyddio gwasanaethau'r GIG yn gynnil ac o dan yr amodau iawn.

Ar nodyn cadarnhaol, yr wythnos diwethaf roedd dros 1 filiwn o bobl wedi cael eu brechu ar draws ein Bwrdd Iechyd. Mae hwn yn nifer rhyfeddol o fewn y cyfnod amser. Hoffwn ddiolch i'r holl staff a phartneriaid sydd wedi ein helpu i gadw ein holl wasanaethau ar agor drwy gydol cyfnod yr ŵyl a'r flwyddyn newydd, a'r holl wirfoddolwyr a phartneriaid sydd wedi sefyll wrth ein hochr ac wedi torchi eu llewys gyda ni.

Hoffwn ffarwelio â Steve Curry a fu'n gweithio gyda ni fel Prif Swyddog Gweithredu ers mis Tachwedd 2017, ar ôl ymgymryd â'r rôl dros dro flwyddyn cyn hynny. Ar ran fy nghydweithwyr, hoffwn ddymuno'r gorau i Steve ar gyfer y dyfodol a diolch am ei wasanaeth.

Croeso mawr i Caroline Bird a fydd yn camu i'r rôl fel Prif Swyddog Gweithredu dros dro ac Abigail Harris fel Dirprwy Brif Weithredwr dros dro.

Wrth i ni groesawu blwyddyn newydd, rwy'n bersonol yn dechrau teimlo'r pwysau dros yr wythnosau nesaf a maint anferthol yr her. Ond rwyf hefyd yn parhau i fod yn obeithiol — mae'r brechlyn wedi rhoi rhywfaint o hyder ac optimistiaeth i ni. Wrth i'r dyddiau ddechrau ymestyn, y gobaith yw y bydd pethau'n araf ddychwelyd at fywyd fel yr ydym am ei fyw.

Gan ddymuno Blwyddyn Newydd hapus ac iach i chi gyd, a diolch yn fawr i'n staff, cleifion, gwirfoddolwyr, ein partneriaid, ein cymuned a'r miloedd o bobl bob dydd sy'n cyfrannu at y frwydr yn erbyn COVID-19.

Ffarwel trist â Brian Rees

Ar ran Caerdydd a'r Fro, mae'r Athro Meriel Jenney a minnau yn anfon ein meddyliau a'n dymuniadau at deulu Mr Brian Rees, ffrind da a chydweithiwr eithriadol a fu farw ar 29 Rhagfyr 2021.

Cyffyrddodd Brian â llawer o fywydau ac roedd yn berson hoffus a dylanwadol iawn yn y byd meddygaeth. Dechreuodd yn Ysbyty Athrofaol Cymru fel llawfeddyg cyffredinol yn 1992 cyn dod yn glinigwr canser arweiniol yn 2000. Dyfarnwyd OBE i Brian am ei wasanaethau i feddygaeth yn yr un flwyddyn, ac yn 2008 daeth hefyd yn Uchel Siryf De Morgannwg.

Cafodd Brian ei gydnabod hefyd am gyrraedd y lefel uchaf mewn rygbi proffesiynol, gan ennill tri chap i Gymru yn 1967.

Roedd Brian yn gyflawnwr uchel, yn arweinydd gwych a gosododd y safonau uchaf ar draws popeth a wnaeth trwy gydol ei yrfa. Yn bersonol, byddaf bob amser yn cofio bod yn ddigon ffodus i fod yn fyfyrwr meddygol iddo mewn llawfeddygaeth gyffredinol. Yn diwtor carismatig a phroffesiynol iawn, roedd Brian yn un o'r meddygon uchaf ei barch y byddaf i, ac mae'n siŵr y bydd llawer o fy nghydweithwyr ar draws y bwrdd iechyd, wedi'i adnabod erioed.

Caiff ei gofio am ei yrfa ddisglair fel llawfeddyg amlwg, chwaraewr rygbi medrus ac am ei bresenoldeb, ei hynawsedd, ei ffraethineb a'i synnwyr o hwyl. Caiff digwyddiad coffa ei gynllunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gyda manylion i'w cadarnhau.

[Mae Wales Online wedi cyhoeddi teyrnged deimladwy i fywyd Brian y gallwch ei darllen yma.](#)



Diweddariad ar y Brechlyn

Dros wyliau'r Nadolig, cyflawnodd ein tîm brechu'r garreg filltir anhygoel o ddarparu miliwn o frechiadau i'n poblogaeth. Mae hwn yn nifer anhygoel ac fe'i cyflwynwyd mewn ychydig dros flwyddyn ers dechrau'r rhaglen Brechu Torfol. Mae'r cynllunio, yr adnoddau a'r amser sydd wedi'u neilltuo i'r rhaglen hon yn rhyfeddol. Diolch i'n holl staff a gwirfoddolwyr am gefnogi'r gwaith hwn a diolch i bob aelod o'r cyhoedd sydd wedi mynychu i gael eu brechlyn a chadw ein poblogaeth yn ddiogel.

Yn anffodus nid ydym allan o berygl eto o ran COVID, gan fod achosion o Omicron yn dal i gynyddu yn y gymuned. Fodd bynnag, y brechlyn yw ein hamddiffyniad gorau o hyd yn erbyn salwch difrifol felly rydym yn eich annog i barhau i fynychu pan gewch eich gwahodd.

Byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio cyfyngedig ar gyfer brechiadau dos atgyfnerthu'r wythnos hon yng Nghanolffannau Brechu Torfol y Bae a Holm View. Os ydych dros 18 oed mae croeso i chi ddod i gael eich dos atgyfnerthu rhwng 8.30am a 7.30pm yn Holm View o 6 i 9 Ionawr ac yng Nghanolfan y Bae ar 6 a 7 Ionawr.

Sylwch fod y ddwy ganolfan yn dal i gynnal apwyntiadau galw heibio ar gyfer y dos cyntaf a'r ail ddos os ydych yn 16 oed neu'n hŷn, saith diwrnod yr wythnos.

Neges Nyrsio Ardal i'r cyhoedd

Oherwydd y pwysau ar draws y system gyfan, mae ein timau nyrsio cymunedol yn wynebu galw cynyddol sy'n golygu bod angen iddynt ail-flaenoriaethu'r gofal a ddarperir.

Rydym am sicrhau'r cyhoedd y bydd y tîm yn parhau i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel 24/7 i'r boblogaeth ond efallai y bydd angen ei ddarparu mewn ffordd ychydig yn wahanol mewn ymateb i'r pwysau presennol.

Mae'r gwasanaeth Nyrsio Ardal ar gael o hyd 24/7 a byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth craidd i gynnwys gofal lliniarol, osgoi derbyniadau i'r ysbyty ac asesu brys i barhau i gefnogi pobl pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, efallai y bydd angen diwygio rhywfaint o ofal arferol ychydig, megis newid gorchuddion syml a phroffion gwaed, er mwyn galluogi'r tîm i flaenoriaethu gofal i'r rhai sydd ei angen yn fwy brys.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, nifer y cleifion sy'n gaeth i'r tŷ ac rydym yn parhau i ddarparu cymorth i'n sector cartrefi gofal nyrsio, sydd hefyd yn wynebu heriau staffio. Mae hyn, ynghyd â hunanynysu ac aros am ganlyniadau profion yn rhoi pwysau staffio ychwanegol ar draws y gwasanaeth. [I ddarllen mwy, ewch i'r wefan yma.](#)

Llwybrau Toriadau Cesaraidd wedi'u Trawsnewid i Wella Profiad a Gofal Cleifion

Mae Adran Bydwreigiaeth, Obstetreg a Gynaecoleg Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yn falch o gyflwyno mwy o gapasiti ar gyfer toriadau cesaraidd dewisol yn

Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC).

Yr uned yn Ysbyty Athrofaol Cymru yw'r fwyaf yng Nghymru ac mae ein staff yn gofalu am gleifion sydd â rhai o'r anghenion iechyd mwyaf cymhleth ymhlith mamau yn rhanbarthol. Bydd capasiti newydd rhestr y toriadau cesaraidd dewisol yn caniatáu i gleifion gael eu rhannu'n ddwy ffrwd, un ar gyfer gofal brys ac un ar gyfer gofal wedi'i gynllunio.

Datblygwyd y system newydd mewn cydweithrediad â staff, yn ogystal â defnyddio adborth gwerthfawr gan gleifion. Mae nifer o sefydliadau proffesiynol gan gynnwys Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a'r Coleg Anestheteg Brenhinol wedi cymeradwyo bod hwn yn fodel gofal a ffefrir. Mae sefydliadau eraill y GIG hefyd wedi rhoi modelau tebyg ar waith yn llwyddiannus sydd wedi gwella profiad cleifion yn sylweddol.

Fel rhan o'r model blaenorol, byddai gofal brys yn aml yn gallu amharu ar ofal wedi'i gynllunio, am fod angen rhoi blaenoriaeth i ofal brys. Bydd y system newydd yn lliniaru'r pwysau a'r oedi hyn. [Darllenwch ragor yma.](#)



Diweddariad parcio ceir

Ym mis Rhagfyr, ailgyflwynwyd cyfyngiadau parcio ceir ar ein safleoedd ysbyty. Mae'r cyfyngiadau hyn yn ein helpu i wella mynediad cleifion at feysydd parcio ceir, yn ogystal â gwella diogelwch a lleddfu tagfeydd ar y safle.

Dylai cleifion ac ymwelwyr barcio mewn meysydd parcio dynodedig, a gall staff barcio mewn unrhyw faes parcio staff a ddyrennir ar eu trwydded. [Ewch i'n gwefan i weld mapiau safle parcio ar gyfer YAC ac YALL yma.](#)

Er y gall pob defnyddiwr barcio am ddim o hyd, gofynnwn i chi barcio'n gyfrifol ar y safle i gadw ein hysbytai yn ddiogel. Bydd parcio ar linellau melyn dwbl, mewn ardaloedd â llinellau, mewn bae anabl neu os yw eich cerbyd yn rhwystro mynediad, yn arwain at ddirwy.

Mae gennym hefyd wasanaeth Parcio a Theithio am ddim i gleifion, staff ac ymwelwyr sy'n teithio i YAC ac YALL. Mae defnyddio'r gwasanaeth hwn yn helpu i leihau nifer y cerbydau sy'n dod i safleoedd ein hysbytai ac yn rhyddhau lleoedd parcio ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf. [Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth ynghylch amserlenni.](#)

Dyfarnu MBE i Dr Bala

Llongyfarchiadau i Dr Subramaniam Balachandran (a elwir yn Dr. Bala), am ei gydnabyddiaeth yn Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines wrth iddo dderbyn MBE: Am wasanaethau i'r GIG yn ystod yr argyfwng COVID-19.



Penodwyd Dr Bala yn Anesthetydd Ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro ym mis Mai 2002 ac mae wedi bod yn arweinydd Rheoli Heintiau am fwy na 12 mlynedd.

Fel rhaglen arferol, dechreuodd Dr Bala sesiynau gosod masgiau ym mis Hydref 2019 cyn i'r pandemig COVID-19 ddechrau, felly roedd y gyfarwyddiaeth amlawdriniaethol o fewn y Bwrdd Clinigol Llawfeddygaeth wedi'i pharatoi'n dda.

Datblygodd ganllawiau PPE hefyd ar ôl adolygu'r dystiolaeth gyfoes yr oedd angen ei diweddaru'n gyson oherwydd natur ddeinamig sefyllfa COVID-19.

Mae ei waith ar ddarparu PPE priodol i weithwyr gofal iechyd, yn enwedig ar gyfer y gweithdrefnau cynhyrchu aerosol, a chanllawiau PPE wedi bod o gymorth mawr i atal croes-heintio rhwng cleifion, gweithwyr

gofal iechyd a'u cydweithwyr. O ganlyniad, mae'r gwaith wedi sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd gwaith, a wnaeth helpu i gynnal y gweithlu o fewn BIP Caerdydd a'r Fro.

Yn ystod cyfnod brig y pandemig, cynhaliodd Dr Bala a'i dîm dros 3200 o brofion gosod masgiau ar fasgiau FFP3 amrywiol ac anadlyddion aml dro i amddiffyn staff y BIP. Yn ogystal â staff y BIP, bu Dr Bala hefyd yn helpu staff deintyddol yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae Dr Bala wedi cychwyn amryw fesurau rheoli heintiau gan gynnwys prosiectau archwilio perthnasol, a bu'n cymryd rhan weithredol yn ystod y pandemig ffliw moch yn 2009-10, a oedd yn cynnwys datblygu cynllun strategol y gyfarwyddiaeth a chynnal sesiynau gosod masgiau FFP3 ar gyfer staff.

Ers hynny, mae Dr Bala wedi bod yn cynnal sesiynau gosod masgiau FFP3 rheolaidd, fel bod gweithwyr gofal iechyd yn cael PPE priodol, ac mae hefyd wedi cyfrannu at hyfforddi'r profwyr.

Dywedodd Stuart Walker, Prif Weithredwr Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: "Rwy'n hynod falch o'r gwaith y mae Dr Bala wedi'i wneud ac mae'r gydnabyddiaeth haeddiannol hon yn dyst i'w ymrwymiad i atal a rheoli heintiau.

"Mae diogelwch ein gweithlu bob amser yn bwysig ond ni fu erioed yn fwy felly nag yn ystod y pandemig COVID-19, felly mae'r gwaith allweddol a wnaeth ef a'i dîm i sicrhau bod staff yn ddiogel ac i leihau croes-heintio ar adeg lle'r oedd canllawiau'n newid yn gyflym yn rhagorol. "Ar ran y Bwrdd a chydweithwyr Dr Bala, hoffwn estyn ein llongyfarchiadau."

Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff

Mae enwebiadau ar gyfer ein Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff blynyddol 2022 bellach ar agor. Dyma gyfle i gydnabod aelod o staff y bwrdd iechyd neu wirfoddolwr sydd, yn eich barn chi, wedi dangos arfer ac ymroddiad rhagorol wrth ofalu am bobl a'u cadw'n iach.

Mae categorïau eleni'n cynnwys:

- Ymhelaethu ar ein Strategaeth ar Waith
- Prosiect Cynaliadwyedd Amgylcheddol Gorau
- Gwobr y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
- Canmolïaeth y Cadeirydd
- Gwobr Arweinyddiaeth Dosturiol
- Cyfraniad at Addysg ac Addysgu
- Cyfraniad eithriadol yn ystod y pandemig COVID-19
- Iechyd a Lles yn y Gwaith
- Seren y Flwyddyn yr Elusen Iechyd
- Arloesi, Gwell a Thrawsnewid ar eu gorau
- Arwain ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Gwobr Byw Ein Gwerthoedd

- Bodloni ein gofynion ar gyfer Safonau'r Gymraeg
- Cyfraniad Eithriadol at Ddiogelwch
- Ymgysylltu â Chleifion a'u Profiad
- Gwobr Dewis y Bobl
- Ymchwil a Datblygu
- Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Mae'r enwebiadau ar agor tan ddydd Gwener 21 Ionawr a chynhelir y seremoni wobrwyo ddydd Gwener 8 Ebrill. Rydym yn croesi ein bysedd y byddwn yn gallu cynnal y digwyddiad eleni yn bersonol. Mwy o fanylion i ddilyn. Am fwy o wybodaeth ac i gyflwyno ffurflen enwebu ewch i <https://bipcaf.gig.cymru/staff-information/your-development/staff-recognition-awards-2022/>



Dyn a'i Gi

Diolch yn fawr iawn i Richard a'i gi annwyl Penny am godi swm anhygoel o £1860 i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro. Dyma nhw yn y llun gyda Helen Bennet o Uned Gofal Uchel y Niwrowyddorau T4. Mae Richard wedi bod wrthi'n ddiflino yn codi arian ar gyfer yr Uned wedi iddo gael diagnosis o diwmor ar yr ymennydd yn 2014. [Darllenwch ei stori yma.](#)



Sesiwn Rubicon yn Hafan y Coed

Fel rhan o'r fenter Celfyddyd a Chrebwyll, bydd Rubicon yn gweithio gyda'n Hadran Niwroseiciatreg yn Hafan y Coed, yr Uned Iechyd Meddwl, gan ddarparu sesiynau cerddoriaeth a symud i gynorthwyo adferiad. Mae hyn yn bosibl diolch i gyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring. [Darllenwch ragor yma.](#)